# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 23 Mehefin 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfwyio
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Y Mesur Paratoadau Sifil Drafft

**C3 Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'r Swyddfa Gartref ynghylch y Mesur Paratoadau Sifil drafft? (OAQ36324)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr wyf yn mynychu cyfarfodydd gweinidogol wedi'u cadeirio gan yr Ysgrifennydd Catref, lle mae'r Mesur wedi cael ei drafod, ond mae'r prif gyfrifoldeb am y Mesur yn gorffwys gyda Swyddfa'r Cabinet a'i Weinidog, Douglas Alexander AS, a'i Bwyllgor Paratoadau Sifil, y byddaf yn cysylltu'n fwyaf aml gyda hwy ar y mater hwn.

*Atebwyd cwestiynau 4 a 5 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Darpariaeth Tai Ffatri Fforddiadwy

**C6 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth tai ffatri fforddiadwy yng Nghymru? (OAQ36224)

**Edwina Hart:** Wrth dai-ffatri, deallaf mai'r dyna y mae'r diwydiant adeiladu yn ei alw'n weithgynhyrchu oddi ar y safle. Ynglŷn â thai fforddiadwy, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yw'r prif ddarparwr, ac nid yw'r Cynulliad, fel rheolydd, yn mynnu ar unrhyw ddull arall o adeiladu. Fodd bynnag, croesawn dai-ffatri fforddiadwy, cyhyd ag y bo'n darparu'r ansawdd a'r gwerth am arian sydd ei angen.

*Atebwyd cwestiynau 7 i 10 yn y Cyfarfod Llawn*

### Adnewyddu Tai

**C11 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi sut y mae'r Cynulliad yn cefnogi gwaith i adnewyddu tai yng Nghymru? (OAQ36230)

**Edwina Hart:** Mae ein cynlluniau pellgyrhaeddol i wella tai yng Nghymru wedi'u nodi yn ein strategaeth dai genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ein gweledigaeth ar gyfer yr ansawdd yr ydym am ei gael ar gyfer yr holl dai yn Nghymru erbyn 2012. Yr ydym wedi cefnogi hyn gyda lwfans atgyweiriadau mawr i dai awdurdodau lleol ac wedi cynyddu'r hyblygrwydd sydd gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thai yn y sector preifat.

## Cwestiynau i'r Gweindiog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Gwasanaethau Bysiau yng Nghymoedd y De

**C9 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau yng Nghymoedd y De? (OAQ36265)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Cwmnïau sy'n darparu y rhan fwyaf o wasanaethau bws lleol yn fasnachol, ond mae gan awdurdodau lleol y pŵer i roi cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai masnachol y maent yn eu hystyried fel rhai angenrheidiol yn gymdeithasol. Mae strategaeth bws ardal leol pob awdurdod yn egluro'n fanwl sut y mae'n bwriadu diwallu anghenion lleol, yn unol â strategaeth trafnidiaeth gyhoeddus ranbarthol y consortiwm trafnidiaeth perthnasol

### Cysylltiadau Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig

**C10 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus integredig yn y De? (OAQ36267)

**Andrew Davies:** Rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol sydd wrth wraidd ein polisi trafnidiaeth integredig. Mae enghreifftiau da o integreiddio, gan gynnwys gorsaf Caerffili, lle mae rhwydwaith o wasanaethau bysiau yn cysylltu â'r rheilffordd. Bydd defnydd cynyddol o drafnidiaeth gyhoeddus yn gofyn am integreiddio gwell, ac mae hyn yn flaenoriaeth yn ein polisïau trafnidiaeth.

*Tynnwyd cwestiwn 11 (OAQ36251) yn ôl.*

### Lefelau Cyflogaeth

**C12 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau cyflogaeth yng Nghymru? (OAQ36294) [W]

**Andrew Davies:** Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, 1,314,000 o bobl oedd mewn gwaith yng Nghymru dros gyfnod y tri mis hyd at Ebrill 2004. Dyna gynnydd o 12,000 ers yr un pryd flwyddyn ynghynt, a 82,000 ers yr un cyfnod yn 2002. Y gyfradd o bobl oed gweithio mewn gwaith yng Nghymru oedd 72.2 y cant, sef yr un lefel â blwyddyn ynghynt, a 3.6 y cant yn uwch na'r un cyfnod yn 2002. Cafwyd gostyngiad o dros hanner yn y bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r DU yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

### Cronfeydd Amcan Un yn y Gogledd

**C13 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y cronfeydd Amcan Un yn y Gogledd? (OAQ36274)

**Andrew Davies:** Erbyn diwedd Ebrill, yr oedd tua £100 miliwn o arian Amcan Un wedi'i ymrwymo i dros 160 o brosiectau lleol yn y Gogledd, gyda chyfanswm buddsoddiad prosiect o dros £240 miliwn. Mae'r prosiectau hyn yn dweud bod tua 4,450 o swyddi newydd gros wedi'u creu a dros 5,400 o swyddi wedi'u diogelu. Yn ogystal, mae nifer o brosiectau rhanbarthol yn yr ardal wedi creu neu ddiogelu 10,000 o swyddi pellach.

Sylwer: mae ardal y Gogledd yn cynnwys ardaloedd partneriaethau lleol Ynys Môn, Conwy, sir Ddinbych a Gwynedd. Daw'r wybodaeth o adroddiadau partneriaethau lleol, a lunnir yn chwarterol.

### Damweiniau Traffig Ffyrdd

**C14 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym beth sy’n cael ei wneud i leihau nifer y damweiniau traffig ffyrdd sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru? (OAQ36335)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn ystyried bod gwella diogelwch ar y ffyrdd yn fater difrifol iawn, ac mae’n elfen bwysig o’n strategaeth diogelwch ffyrdd i Gymru. Mae fforwm diogelwch ffyrdd Cymru, sy’n monitro cynnydd ar dargedau’r strategaeth, wedi sefydlu is-grŵp diogelwch ffyrdd i blant i edrych yn fanwl ar y mater hwn ac i’n cynorthwyo i gyrraedd y nod o sicrhau gostyngiad o 50 y cant erbyn 2010 yn nifer y plant sy’n cael eu lladd neu’u hanafu’n ddifrifol. Yr ydym eisoes yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â’r targed hwn, ac yr oedd nifer y plant a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol yn 2002 34 y cant yn is na ffigur cyfartalog 1994-98.

Hyd yma, darparwyd dros £14.5 miliwn i awdurdodau lleol ers 1999 ar gyfer llwybrau diogel i’r ysgol, gan ddatblygu 81 o gynlluniau ar draws Cymru.

Ers 2002, yr ydym wedi darparu cyllid i bob awdurdod lleol i gyflogi cydlynydd hyfforddi plant ar reolau’r ffordd fawr i ddysgu sgiliau diogelwch ffordd i blant rhwng pump a saith oed. Mae’r cynllun yn cael ei werthuso wrth ystyried ei ariannu y tu hwnt i fis Mawrth 2005.

Yr ydym hefyd wedi darparu dros £24 miliwn i awdurdodau lleol drwy grantiau diogelwch ffyrdd lleol i dalu am welliannau allweddol o ran diogelwch ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, gan gynnwys ffyrdd o amgylch ysgolion ac i weithredu cyfyngiadau a pharthau 20 milltir yr awr. Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd wedi lansio clybiau trafnidiaeth plant, ar gyfer plant cyn oed ysgol, a swyddogion diogelwch ffordd yr ifanc, ar gyfer plant hŷn mewn ysgolion cynradd.

Ar y cyd â Chyngor Diogelwch Ffyrdd Cymru, yr ydym wedi darparu deunydd cyhoeddusrwydd ac adnoddau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc. Eleni, bu’r cyngor hefyd yn gyfrifol am gystadleuaeth i bobl ifanc rhwng 17 a 24 oed â’r nod o wella eu sgiliau gyrru.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ36242) yn ôl.*